

Rhaglen Genedlaethol CiG National CfW programme

Y Celfyddydau Mynegiannol

Cynllunio ar gyfer Cynnydd



Cofrestru

Cofrestrwch ar gyfer y sesiwn trwy naill ai'r cod QR neu wrth ddefnyddio'r [DOLEN](#) o fewn y bocs sgwrsio.

Dewiswch y sesiwn briodol pan fyddwch wedi cael mynediad i'r ffurflen.

<https://forms.office.com/e/fUEdYVA6xc>

Curriculum for Wales: Cross regional programme



Nod y sesiwn

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd gan ymarferwyr:

- Ddealltwriaeth dyfnach o gynnydd o fewn fframwaith CiG a strwythur y MDPH
- Dealltwriaeth ddyfnach o sut i fynd ati i gynllunio cwricwlwm Celfyddydau Mynegiannol
- Cyfle i fyfyrio ar enghreifftiau ac ystyried sut gall hyn gefnogi chi i ddatblygu eich arferion ymhellach

Blaenoriaethau clwstwr

‘Dylai ysgolion:

- **Ddatblygu a chynnal cyd-ddealltwriaeth o gynnydd *o fewn ysgol* neu leoliad arall**
- **Datblygu a chynnal cyd-ddealltwriaeth o gynnydd *ar draws ysgolion* a lleoliadau eraill**
- **Cynnal cynllun yn amlinellu sut y byddant yn cyflawni’r pethau hynny’**

(Llywodraeth Cymru, 2022)

[Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu’r cwricwlwm](#)

Cynnydd yng Nghwricwlwm i Gymru

Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion bras ar gyfer cynnydd o fewn pob Maes yn ei gyfanrwydd.

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Sail dilyniant dysgwyr trwy gydol y continwwm 3-16.

Disgrifiadau dysgu

Disgrifiwch sut y dylai dysgwyr symud ymlaen o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Maent yn bwyntiau cyfeirio at ddilyniant.

'Mae cynnydd mewn dysgu yn broses o ddatblygu a gwella sgiliau a gwybodaeth dros amser.'

Dylai'r tair elfen hyn lywio'r broses o ddethol a threfnu cynnwys y cwricwlwm ym mhob Maes.

Datganiadau yr hyn sy'n bwysig

Mandadol


Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Y broses greadigol

- Mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn dangos cynnydd yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, hynny yw y broses greadigol
- Angen dangos cynnydd wrth archwilio, ymateb, myfyrio a chreu



Disgrifiadau dysgu

- ▼ Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3
Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau , deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol.	Rwy'n gallu archwilio, arbrofi gyda, ac yna ddewis technegau, dulliau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol priodol.	Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi'n annibynnol, a dangos rheolaeth dechnegol gydag ystod o ddeunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol gan ddangos arloesedd a gwydnwch. Rwy'n gallu archwilio'r effeithiau mae ystod o dechnegau , deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol yn eu cael ar fy ngwaith creadigol fy hun ac eraill.
Rwy'n gallu gofyn cwestiynau i ganfod sut y caiff gwaith creadigol ei wneud.	Rwy'n gallu archwilio pam a sut y caiff gwaith creadigol ei wneud trwy ofyn cwestiynau a datblygu fy atebion fy hun.	Rwy'n gallu archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli , cofnodi, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol.
Rwy'n dechrau archwilio syniadau,	Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae	Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae



Archwilio ac arbrofi wrth ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig.



Archwilio ac arbrofi wrth ddatblygu ac adeiladu rheolaeth technolegol.



Archwilio hunaniaeth a chyd-destun.



Archwilio cyfathrebu artistig.

Camau cynnydd

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwlfrydig a chreadigol.

Llinyn	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Technegau ac adnoddau	Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol.	Rwy'n gallu archwilio, arbrofi gyda ac yna ddewis technegau, dulliau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol priodol.	Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi'n annibynnol, a dangos rheolaeth dechnegol gydag ystod o ddeunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol gan ddangos arloesedd a gwydnwch.	Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gyda fy syniadau creadigol fy hun a syniadau creadigol pobl eraill, gan ddangos rheolaeth dechnegol sy'n gynyddol gymhleth, arloesedd, meddwl annibynnol a gwreiddioldeb er mwyn datblygu fy ngwaith gyda hyder.	Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gyda fy syniadau creadigol fy hun a syniadau creadigol pobl eraill, gan ddangos rheolaeth dechnegol, arloesedd, meddwl annibynnol a gwreiddioldeb, gan ddangos hyder i gymryd risgiau a datblygu gwydnwch er mwyn goresgyn heriau creadigol.
			Rwy'n gallu archwilio'r effeithiau mae ystod o dechnegau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol yn eu cael ar fy ngwaith creadigol fy	Rwy'n gallu gwneud hyn gan esbonio fy rhesymau dros wneud penderfyniadau, a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar fy ngwaith creadigol.	



Pa wybodaeth, sgiliau a phrofiadau?

Egwyddorion cynnydd

Mae egwyddorion cynnydd yn nodi'r syniadau ehangach ynghylch sut y dylai cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad edrych.



i Mandadol

Egwyddorion cynnydd

Dylai cynnydd mewn dysgu bob amser fod wrth wraidd y broses o gynllunio'r cwricwlwm yn hytrach na dechrau gyda thema ac addasu'r dysgu i gydweddu â hi. Wrth ddewis cynnwys cwricwlwm, mae'n rhaid i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r [egwyddorion cynnydd](#) i lywio eu dull gweithredu o ran cynnydd. Tra bod disgrifiadau dysgu yn mynegi ffordd y dylai dysgwyr wneud cynnydd mewn dysgu o ran datganiadau penodol o'r hyn sy'n bwysig, mae'r [egwyddorion cynnydd](#) yn mynegi'r egwyddorion ehangach o ran yr hyn y mae cynnydd yn ei olygu yn y Maes yn ei gyfanrwydd. Fel y cyfryw, mae'n rhaid i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r egwyddorion hyn i lywio'r holl ddysgu i gefnogi cynnydd. Wrth ystyried disgrifiadau dysgu neu gyd-destun, testun neu brofiad penodol, mae'r egwyddorion cynnydd yn helpu ymarferwyr i ddeall sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd mewn modd mwy soffistigedig neu ddwfn. Dylai ymarferwyr hefyd gydnabod y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd ar wahanol gyflymderau.

“dylai cynnydd mewn dysgu fod wrth wraidd cynllunio'r cwricwlwm bob amser – yn hytrach na dechrau gyda thema a ffitio'r dysgu iddi”

Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr



Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth



Archwilio, profi a chreu ystyr mwy cymhleth

Cysylltu dysgu newydd â gwybodaeth a sgiliau presennol

Arddangos mireinio trwy dechnegau, prosesau a sgiliau disgyblaeth-benodol

Mae sgiliau annatod yn rhan hanfodol, creadigrwydd, synthesis, meddwl beirniadol

Dangos dealltwriaeth o gyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol

Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn meysydd dysgu a phrofiad




Tyfu chwilfrydedd am fod yn greadigol trwy bob disgyblaeth

Dangos dealltwriaeth gynyddol o bob disgyblaeth o fewn y celfyddydau mynegiannol

Datblygu gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy ar draws pob disgyblaeth

Y gallu i gyfuno un neu fwy o'r ddisgyblaeth mewn ffordd bwrpasol wrth archwilio, ymateb a chreu

Mireinio a chynyddu'r soffistigeiddrwydd wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau




Dangos rheolaeth, cywirdeb a rhuglder wrth ddefnyddio ystod o sgiliau ar draws y disgyblaethau

Arddangos mireinio gyda soffistigedigrwydd cynyddol wrth arbrofi a chreu

Gwerthuso a myfyrio ar waith a grëwyd er mwyn datblygu ymhellach

Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd



Dangos gwerthfawrogiad o bob disgyblaeth

Defnydd mwy soffistigedig o sgiliau disgyblaeth-benodol perthnasol

Y gallu i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth i gyd-destunau newydd a gwahanol

Dulliau Addysgu

Disgyblaethol



Dysgu ac addysgu o fewn disgyblaeth unigol ar y tro.

Rhyngddisgyblaethol



Dysgu ac addysgu sy'n cyfuno dwy ddisgyblaeth neu fwy trwy ddull cyfannol.


Amlddisgyblaethol



Dysgu ac addysgu o fewn disgyblaethau sy'n gysylltiedig â thema gyffredin.

Sgiliau trawsgwricwlaidd

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd digidol



Sgiliau Cyfannol



**Creadigrwydd ac
arloesi**

**Effeithiolrwydd
personol**



**Pedwar
Diben**



**Meddwl yn feirniadol
a datrys problemau**

Cynllunio a threfnu




Themâu trawsbynciol

- Addysg perthnasoedd a rhywioldeb
- Hawliau Dynol
- Amrywiaeth
- Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
- Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol



Egwyddorion asesu



Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol wrth alluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny.

Prosesau allweddol sydd eu hangen ar gyfer dilyniant effeithiol i ddysgwyr, sef: datblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant pontio ar hyd y continwwm 3 i 16 cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.

Pwrpas asesu - LIC

Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus
o ddydd i ddydd

Nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd
dysgwyr unigol dros amser

Deall cynnydd grwpiau er mwyn
myfyrio ar arferion



Asesu sy'n wynebu ymlaen

Gwella'r dysgu NID

Profi'r dysgu

'Yn Cwricwlwm i Gymru...

- **Llai o ffocws ar beth sydd wedi bod (wynebu am yn ôl):**
- barnu tystiolaeth o ddysgu yn y gorffennol yn erbyn safonau allanol
- cofnodi'r canlyniadau a defnyddio'r rhain at ystod o ddibenion nad ydynt yn bennaf yn llywio dysgu ac addysgu yn y dyfodol
- **Mwy o ffocws ar y dyfodol (wynebu ymlaen):**
- casglu tystiolaeth o ddysgu cyfredol
- deall y cynnydd a wneir gan ddysgwr
- egluro sut y gwnaed cynnydd
- myfyrio a hunanwerthuso'

(WG, CAMAU Asesu am y dyfodol, 2022, p7)

Cwestiynau i fyfyrrio arnynt

Beth rydym yn ei asesu?

Pam rydym yn asesu?

Pryd ydyn ni'n asesu?

Sut rydym yn asesu?

Pwy sy'n cymryd rhan mewn asesu?

Beth rydym yn ei wneud gyda thystiolaeth yr asesu?

Cynnydd o fewn Disgyblaethau Cerddoriaeth

Non Parri Roberts a
Lowri Gwenllian Evans

Ffederasiwn Carno, Glantwymyn a
Llanbrynmair

Hydref 2023



FFEDERASIWN CARNO GLANTWYMYN A LLANBRYNMAIR

Law yn Llaw ac fe anelwn am y brig





**YSGOL EIFIONYDD – DELWEDDU'R CWRICWLWM
SIONED WILLIAMS - ATHRAWES GELF A THECHNOLEG
PENNAETH Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL
A DYLUNIO A THECHNOLEG**

Myfyrio

Wrth ystyried y cyflwyniadau heddiw, beth yw'r
prif negeseuon fydddech yn cymryd i ffwrdd o'r
sesiwn?

Beth fydd eich camau gweithredu nesaf ar
gyfer y celfyddydau mynegiannol?



Gwerthuso

Gwerthfawrogwn petaech yn llenwi'r ffurflen werthuso nail ai trwy'r cod QR neu'r [ddolen](#) yn y bocs sgwrsio.

Dewiswch y sesiwn briodol pan fyddwch wedi cael mynediad i'r ffurflen.

<https://forms.office.com/e/m4em4RBLCF>

Diolch yn fawr

National Professional Learning
Programme - AoLE Sessions -
Evaluation 23/24



	Amanda Jones Amanda.Jones@cscjes.org.uk
	Liz Berry Liz.berry@sewaleseas.org.uk
	Ruth Price-Roberts RuthElizabethPrice-Roberts@gwegogledd.cymru
	Debbie Moon Debbie.Moon@partneriaeth.cymru Kathryn Richards RichardsK119@Hwbcymru.net
	Elen Gwenllian Davies Elen.Gwenllian.Davies@ceredigion.gov.uk Lynsey Mcrohon Lynsey.Mccrohon1@powys.gov.uk

